



**côrdydd**  
**caneuon john rutter**

yn cynnwys yr Offeren i'r Meirw

gyda with

**elin manahan thomas**

cyfarwyddwr cerdd musical director

**sioned james**

**CÔRDYDD SING NEW WELSH TRANSLATIONS OF  
JOHN RUTTER'S REQUIEM  
AND OTHER SACRED PIECES**

## **Offeren i'r Meirw**

Requiem

- 1 **Dyro Hedd Tragwyddol**  
Requiem Aeternam
- 2 **O'r Dyfnder Mawr**  
Out of the Deep
- 3 **Iesu Annwyl**  
Pie Jesu  
SOPRANO - ELIN MANAHAN THOMAS
- 4 **Sanctaid**  
Sanctus
- 5 **Oen Ein Duw**  
Agnus Dei
- 6 **Yr Arglwydd yw fy Mugail**  
The Lord is my Shepherd
- 7 **Golau Tragwyddol**  
Lux Aeterna  
SOPRANO - ELIN MANAHAN THOMAS

John Rutter, cyf./trans. Emyr Davies © Oxford University Press

- 8 **Am Brydferthwch Daear Lawr**  
**For the Beauty of the Earth**  
John Rutter; F.S. Pierpoint, *cyf./trans.* John Morris-Jones © Oxford University Press
- 9 **Rho dy Olau Mwyn**  
**Open thou mine Eyes**  
John Rutter; Lancelot Andrewes, *cyf./trans.* Emyr Davies © Oxford University Press
- 10 **Yr Arglwydd a'ch Bendithio**  
**The Lord Bless You and Keep You**  
John Rutter; Numeri p6, a24, *addasiad/adaptation* Emyr Davies © Oxford University Press
- 11 **Pan fo'r eiliad yn goleuo'r galon**  
**Look at the World**  
John Rutter, *addasiad Cymraeg/Welsh adaptation* Emyr Davies © Oxford University Press
- 12 **Dduw Bydd imi'n Gred**  
**God be in my Head**  
John Rutter; Sarum Primer, *cyf./trans.* Emyr Davies © Oxford University Press



Catalog a gwasanaeth archebu Catalogue and ordering service  
**SAIN** LLANDWROG, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5TG  
ffôn 01286 831.111 ffacs 01286 831.497  
catalog@sainwales.com www.sainwales.com

© 2007 SAIN (RECORDIAU) CYF. MCPS

## **Côrddydd**

Ffurfiwyd Côrddydd yn 2000, pan ddaeth criw o ffrindiau ynghyd gyda'r bwriad o fwynhau canu a chymdeithasu. Denwyd llawer o ddinasyddion ifanc i'r ymarferion, a thyfodd y côr i fod yn un prysur a phoblogaidd.

Bu'r côr yn ffodus o gael profiadau cerddorol cofiadwy yn y saith mlynedd ers ei sefydlu: ennill cystadleuaeth Côr y Flwyddyn BBC Radio Cymru yn 2003; canu'r Meseia gyda Cherddorfa Baróc Cymru yn 2004; ymweld â Barbados a Hong Kong; cael cyfle i gydweithio â chorau eraill i ganu offeren Verdi yn 2005 gyda Chôr a Cherddorfa Gymreig y BBC ac offeren Brahms gyda Chôr Bach Abertawe yn 2006, heb anghofio am lu o gyngherddau amrywiol y bu'r côr yn eu cynnal. Daeth llwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd, ac yn Abertawe yn 2006 enillodd y côr y gystadleuaeth i gorau cymysg dan 45 o leisiau am y trydydd tro.

Mae'r CD hwn o waith John Rutter yn benllanw misoedd o waith yn 2007, a hyderwn y bydd yn gyfrwng i roi sain ifanc, delynegol y côr ar gof a chadw. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y CD hwn yn bosibl, ac i ffrindiau a chefnogwyr Côrddydd ar hyd y blynyddoedd.

## **Côrddydd**

Côrddydd was formed in 2000 when a group of friends came together to enjoy singing and socializing. The rehearsals attracted many of the young citizens of Cardiff, and the choir grew in size and popularity.

Since its inception, the choir has been fortunate to gain some memorable musical experiences: winning the BBC Radio Cymru Choir of the Year award in 2003; performing The Messiah with the Baroque Orchestra of Wales in 2004; touring Barbados and Hong Kong; performing Verdi's Requiem as part of a massed choir with the BBC Choir and National Orchestra of Wales in 2005, and Brahms' Requiem with the Swansea Bach Choir in 2006, and numerous other concerts. Other successes include winning the mixed choir with under 45 voices competition for the third time at the National Eisteddfod at Swansea in 2006.

This CD of John Rutter's choral works is the culmination of months of preparation during 2007, and we trust it will be a fitting record of the choir's youthful exuberance and lyrical sound. Thanks to all who contributed to the recording of this CD, and to all of Côrddydd's friends and supporters since its inception.

***Rwy'n cofio'n glir iawn y tro cynta' i fi glywed offeren John Rutter.***

Ro'n i'n gyrru adre o Rydychen ar ôl bod yng nghynhadledd yr ABCD (Cymdeithas Arweinyddion Corawl Prydain). Tra o'n i yn y gynhadledd, ces afel ar nifer o ddarnau corawl newydd sbon a nifer o recordiadau o ddarnau corawl. Wedi dechre ar y daith adre, rhoddais gasét o 'Requiem' John Rutter mla'n yn y car. Roedd effaith y gerddoriaeth mor gryf arna i roedd rhaid i fi dynnu i mewn i ochr yr heol a chanolbwytio'n llwyr ar y miwsig. Ac yno y bues i am dros awr, yn gwranddo, ac ail-wranddo, ar bob un o'r symudiadau a syrthio'n llwyr dan ddylanwad hudolus y gerddoriaeth.

Yn y diwedd, roedd rhaid aildechrau ar y daith, a cherddoriaeth unigryw Rutter yn dal i chwarae a minnau, erbyn hyn, yn teimlo bod rhaid i mi berfformio'r darn gyda fy nghôr, Côr Bach Abertawe, cyn gynted â phosib. A dyna beth wnes i: rhoi Requiem John Rutter a Requiem Gabriel Fauré yn ein rhaglen rai misoedd wedyn.

Cyn pen hir amser, ces gyfle i gyflwyno'r darn i Sioned ac roedd ei hymateb hi llawn mor gryf â'm hymateb i ac fe wnaeth hithau, hefyd, benderfynu perfformio'r darn ar y cyfle cynta'. Ond, gyda'i hysbryd arloesol a'i brwdfrydedd enfawr mae Sioned wedi mentro llawer pellach nag y gwnes i. Nid yn unig mae Sioned a'i chôr amryddawn wedi perfformio'r gwaith ysbrydoledig hwn, ond dyma nhw nawr wedi cynhyrchu'r recordiad cyntaf o'r darn yn yr iaith Gymraeg, gyda'r unawdydd disglair, Elin Manahan Thomas, a chyda chefnogaeth a bendith y cyfansoddwr ei hun.

Gwn y bydd y recordiad arbennig hwn yn rhoi llawer o foddhad a chysur i bawb gaiff ei glywed, ac fe ddaw â rhagor o fri i'r côr arbennig hwn a'i arweinydd dawnus.

*John Hugh Thomas*

### ***Nid ar hap y dewisodd Sioned yr offeren hon i'r côr...***

Roedd mis Mai 1993 yn gyfnod tywyll yn fy hanes. Ces i ddamwain car ac anaf difrifol yn sgil hynny, gan newid fy mywyd mewn amrantiad. Ar y pryd, canu corawl oedd yn llenwi 'mywyd a minnau'n aelod brwd o Gôr Ieuenctid Cymru, Cantorion Teifi, Ysgol Gerdd Ceredigion a Chôr Bach Abertawe. Pan ddaeth arweinydd Côr Bach Abertawe, John Hugh Thomas i'm gweld yn yr ysbyty, a chopi o'r offeren yn ei law, do'n i ddim yn sylweddoli y byddai ei ymweliad yn lliwio gweddill fy mywyd.

Diolch iddo am fy nghyflwyno i'r offeren hon; diolch hefyd i John Rutter am ddarn a'm cododd o gyfnod isel a thywyll, a rhoi rheswm dros ddeffro bob bore gyda gwên. Dim ond wedyn y clywais mai er cof am ei fab y cyfansoddodd John Rutter yr offeren, ar ôl i hwnnw gael ei ladd mewn damwain car.

Mae hi'n dair blynedd ar ddeg ers i mi glywed ei harddwch am y tro cyntaf, ac mae'n dal i'm hudo gyda phob gwrandawriad. Mae hi'n fraint i Gôrddydd gael perfformio'r offeren ar ein cryno ddisg gyntaf, a hynny gydag Elin Manahan Thomas, gan i John Hugh Thomas ei hysbrydoli hithau hefyd pan oedd hi ar ddechrau'i gyrfa yn soprano ifanc, ddisglair.

*Sioned James*

# **Offeren i'r Meirw**

Requiem

Cyfieithiad Cymraeg - *Welsh translation* - Emyr Davies

## 1 **Dyro Hedd Tragwyddol**

Requiem Aeternam

Dyro hedd tragwyddol;  
Dyro iddynt Arglwydd Dduw,  
A daw goleuni mwyn arnynt yn dragwydd

Moliant i'n Harglwydd  
Arglwydd Dduw Seion  
I ti byddo'r mawl fyth i'w ganu yn Jerwsalem.  
O clyw ni! O clyw ni'n offrymu'n gweddi ninnau.  
I ti bydd pob cnawd yn troi yn ôl.

Trugarha fy Arglwydd;  
Bydd yn drugarog,  
Iesu fy Arglwydd.

## 2 **O'r Dyfnder Mawr**

### Out of the Deep

O'r dyfnder mawr  
Y gelwais dy erw, Dduw!  
Dduw! Gwrandd 'nghri.  
O boed i'th glustiau glywed hyn  
Yn llef fy ngweddi i.

O Dduw mawr, pe mynnet sylwi mwy  
Ar bechodau'r byd,  
O Dduw, pwy fedrai sefyll?  
Ond rwy't yn rhoddi maddeuant,  
Felly fe'th ofnwn di.

Fe geisïaf fy Nuw,  
Ymbilio mae f'enaïd i,  
Ac mae fy ffydd yn Ei Air.

Mae f'enaïd yn disgwyl fy Nuw -  
Fel disgwyl am y wawr yr wyf.

O Israel gorffwys yn Nuw  
Cans gyda Duw mae trugaredd  
Trwyddo ef cawn ninnau'n gwaredu,  
A bydd yn rhyddhau Israel rhag pechod byd.

### 3 **Iesu Annwyl**

Pie Jesu

Iesu annwyl, Arglwydd nef,  
Dyro iddynt heddwch, Dduw.  
Dyro hedd tragwyddol,  
Dyro heddwch Arglwydd nef,  
Dyro iddynt heddwch Dduw.

### 4 **Sanctaidd**

Sanctus

Sanctaidd Arglwydd, fe folwn dy fawredd di!  
Llawn yw y nefoedd o'th ogoniant!  
Hosanna, hosanna i'r goruchaf! Hosanna!  
Bendith i'r hwn sy'n dyfod yn enw ein Harglwydd Dduw.  
Hosanna, hosanna i'r goruchaf! Hosanna!

## 5 **Oen ein Duw**

Agnus Dei

Oen ein Duw,  
A aeth â phechodau'r byd,  
Dyro heddwch iddynt hwy.

Dyn wedi'i eni o wraig,  
A fydd yn darfod cyn hir,  
Wedi'r bywyd chwerw hwn,  
Caiff dyfu'n gryf, a'i dorri i lawr fel blodeuyn.  
Fe wibia fel rhyw gysgod rhithiol.

Trwy ein bywyd ni, marw a wnawn.  
Pwy fydd yn gefn i'n cynnal? Pwy?  
Oen ein Duw  
A aeth â phechodau, pechodau'r byd.  
Dyro heddwch iddynt hwy.

Fi ydyw'r atgyfodiad, meddai Duw;  
Bydd hwn a gred ynof fi, er angau'i hun, yn byw am byth.  
Pwy bynnag dreulia'i fywyd, gan roi'i fydd ynof fi,  
Fydd byw am byth.

## 6 **Yr Arglwydd yw fy Mugail**

The Lord is my Shepherd

Yr Arglwydd yw fy mugail,  
Felly ni bydd eisiau arnaf.  
Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,  
A thywys fi gerllaw y dyfroedd tawel.  
Mae e'n fy adfywhau,  
Yn f'arwain i ar hyd llwybrau cyfiawn Duw.  
Er ei fwyn Ef.  
Er imi gerdded drwy ddyffryn sydd mor dywyll a du,  
Gwn nad ofnaf niwed,  
Cans Ti sydd yma,  
Dy wialen a'th ffon i'm cysuro i.  
Ti sy'n arlwygo bwrdd ger fy mron,  
Yng ngŵydd fy ngelynyon i.  
Rwyt ti'n eneinio fy mhen ag olew,  
Mae fy nghwpan yn llawn.  
Fe ddaw dy ddaioni a'th drugaredd  
I'm canlyn i ar hyd dyddiau fy oes,  
A byddaf byw yn nhŷ'r Arglwydd fy Nuw,  
Dragywydd.

## 7 **Golau tragwyddol**

Lux Aeterna

Mi glywais lais o'r nefoedd  
Ddwedodd wrthyf fi: Bendith...  
Bendith fo i'r rhai sy'n marw yn Nuw  
Gorffwys wnânt o'u holl lafur.  
Dyna fydd, meddai'r Ysbryd,  
Gorffwys wnânt mewn hedd, mewn hedd.

Golau tragwyddol fyddo amynt,  
Arglwydd Dduw.

Yng nghwmni'r seintiau  
Yn dragywydd,  
O'th drugaredd di,  
Dyro hedd tragwyddol,  
Dyro iddynt Arglwydd Dduw,  
A daw goleuni mwyn arnynt yn dragywydd.  
Dyro hedd tragwyddol.

## 8 **Am Brydferthwch Daear Lawr**

For the Beauty of the Earth

Cyfieithiad Cymraeg - *Welsh translation* - **John Morris-Jones**

Golygydd - Editor - John Stoddart

Am brydferthwch daear lawr  
Am brydferthwch rhod y nen,  
Am y cariad rhad bob awr,  
Sydd o'n cylch ag uwch ein pen.  
O Dduw graslon dygwn ni aberth mawl i'th enw di.

Am brydferthwch oriau'r dydd  
Am brydferthwch oriau'r nos.  
Bryn a dyffryn, blodau gwŷdd  
Haul a lloer, pob seren dlos.  
O Dduw graslon dygwn ni aberth mawl i'th enw di.

Am hyfrydwch cariad cu,  
Brawd a chwaer a mam a thad,  
Ffrindiau yma, ffrindiau fry,  
Am bob meddwl mwyn a gad  
O Dduw graslon dygwn ni aberth mawl i'th enw di.

Am bob rhodd i ddynol-ryw,  
Gennyt o'th drugaredd gref,  
Am rasmusau dyn a Duw,  
Blodau'r byd a blagur nef,  
O Dduw graslon dygwn ni aberth mawl i'th enw di.

## 9 **Rho dy Olau Mwyn**

Open thou mine Eyes

Cyfieithiad Cymraeg - *Welsh translation* - **Emyr Davies**

Rho dy olau mwyn i mi gael gweld  
Bywhâ fy nghalon, yna fe'th garaf,  
Arwain fy nhraed i mi gael byw yn ôl trywydd dy wirionedd.  
Arglwydd Dduw, bydd i mi'n Dduw o hyd  
Ac yn noddfa ddi-hafal ei hedd,  
Un duwdod, un tad i mi.  
Dyfnha fy ffydd i'th geisio di a'th ganlyn  
Ar hyd trofâu dy wirionedd,  
Yn nwfyn y deall, yng nghynneddf y galon,  
Trwy eiriau y dydd, trwy eiriau yn fy ngweddi.

## 10 **Yr Arglwydd a'ch Bendithio**

The Lord Bless You and Keep You

Addasiad - *Adaptation* - **Emyr Davies**

Yr Arglwydd a'ch bendithio,  
A deued ei ras i wenu amoch,  
A llawenydd fo i chi.

Goleued wyneb mwyn yr Arglwydd amoch beunydd,  
A rhoed ei hedd. Amen.

## 11 **Pan fo'r eiliad yn goleuo'r galon...**

Look at the World

Addasiad Cymraeg - *Welsh adaptation* - **Emyr Davies**

ADDASWYD I'R GYMRAEG AR ACHLYSUR PRIODAS CATRIN Â RHODRI LLYWELYN, RHAGFYR 2006

Darfod mae'r dydd, darfod â'r machlud efydd;  
Darfod mae'r dail, yng nghof y gaeaf maith;  
Ond lle bo ffydd dau yn cofleidio'i gilydd,  
Ni fydd yn crino dim ar hyd y daith.

**Corws** Pan fo'r eiliad yn goleuo'r galon,  
Pan fo'r cyffro cyntaf yn dyfnhau,  
Yna bydd yfory'n llawn bendithion -  
Cariad sy'n parhau.

Gwriddo mae'r wawr, wrth iddi fwrw'i swildod;  
Gwriddo mae'r haul, o'r gusan gynta' i gyd.  
Felly mae serch, tra byddo dau yn gwybod,  
Gwybod y daw yfory'n llawnach byd.

Ni all un rhodd ddwedyd mor daer yw'r enaid;  
Ni all y geiriau fynegi'r dyfnder mud.  
Os gall y ddau edrych ym myw eu llygaid,  
Hynny a ddeil uwchlaw'r anrhegion drud.

Canu mae'r dydd, canu mae'r bore newydd;  
Canu â ffydd y ddau ar ddechrau'r daith;  
Iddynt mae'r gân, iddynt mae pob llawenydd  
Iddynt yn gwmni triw drwy'r hafau maith.

## 12 **Dduw Bydd imi'n Gred**

God be in my Head

Cyfieithiad Cymraeg - *Welsh translation* - **Emyr Davies**

Dduw, bydd imi'n gred ac imi'n groes i'w chanlyn;

Dduw, bydd imi'n gerdd ac imi'n emyn;

Dduw, bydd imi'n wên ac imi'n chwerthin;

Dduw, bydd imi'n ddwrn ac imi'n ddeigrn;

Dduw, bydd imi'n Dad, ac imi'n derfyn.

## **Cerddorion - Musicians**

Organ - **Huw Tregelles Williams**

Ffliwt - *Flute* - **Roger Armstrong**

AC EITHRIO TRACIAU 3 & 7 / *EXCEPT TRACKS 3 & 7*

Obo - *Oboe* - **Gwenllian Davies**

AC EITHRIO TRACIAU 3 & 7 / *EXCEPT TRACKS 3 & 7*

Soddgrwth - *Cello* - **Brian Clarke**

Telyn - *Harp* - **Eluned Pierce**

Clychau Taro - *Glockenspiel* - **Bethan James**

Timpani - **Richard Hinwood**

## **Diolchiadau - Acknowledgements**

John Hugh Thomas; Elin Manahan Thomas;  
John Rutter, pawb yn/all at Oxford University Press; pawb yn/all at Sain;  
Islwyn Evans; Huw Tregelles Williams; Capel Salem, Caerdydd;  
Ceri Wyn Richards & Torpedo Cyf; Radio Cymru; Emyr Davies;  
Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth/All Saints Church, Oystermouth

Cyflwynir er cof am Nel Wynne Morris  
*In memory of Nel Wynne Morris*

Recordiwyd yn Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth - Mehefin 2007  
*Recorded at All Saints Church, Oystermouth - June 2007*

Cynhyrchydd - *Producer* - Siwan Lisa Evans  
Peirianwyr - *Engineers* - Siôn Alun Jones & Eryl B Davies  
Golygydd - *Editor* - Siwan Lisa Evans

Cynllun y clawr blaen - *Front cover design* - Derick Murdoch



Cyfarwyddwr Cerdd *Musical Director* **Sioned James**

Soprano **Elin Manahan Thomas**

Organ **Huw Tregelles Williams**

I am delighted to welcome **Côrddydd's** recording of my **Requiem** and various of my shorter sacred pieces. This is the first recording in Welsh of my music, and it is splendid that such a fine award-winning choir has chosen it for their first CD. The flowing and beautiful sound of the language suits the music to perfection, and will, I hope, touch the hearts of many music-lovers in Wales and beyond.

I am especially happy that **Elin Manahan Thomas** is the soprano soloist in the **Requiem**. I have known her lovely singing ever since she was a member of the Choir of Clare College, Cambridge, and I can think of no singer more appropriate for the role.

My personal greetings and thanks to all who have contributed to this significant venture. I wish it every success.

John Rutter

